# Hybu’r defnydd o dechnoleg ddigidol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion wrth hybu’r defnydd o dechnoleg ddigidol i gefnogi annibyniaeth unigolion. Mae hyn yn cynnwys gweithio gydag unigolion i nodi cymhorthion technolegol, dyfeisiau ac adnoddau digidol addas i hybu eu hannibyniaeth. Mae hefyd yn cynnwys cefnogi unigolion i ddefnyddio, gwerthuso ac adolygu’r cymhorthion technolegol, dyfeisiau ac adnoddau digidol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau eich hun ac eraill i gefnogi unigolion i ddefnyddio, gwerthuso ac adolygu technoleg ddigidol
2. cael caniatâd a chael gafael ar wybodaeth am ddewisiadau ac anghenion unigolion o ran cymhorthion technolegol, dyfeisiau neu adnoddau digidol
3. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i gadarnhau sut y gall cymhorthion technolegol, dyfeisiau neu adnoddau digidol gefnogi annibyniaeth unigolyn yn unol â’i ddewisiadau a’i gynllun gofal neu gymorth
4. gweithio mewn partneriaeth i gytuno ar sut y byddir yn cael gafael ar gymhorthion technolegol, dyfeisiau neu adnoddau digidol, yn ogystal â’u gosod a’u defnyddio, yn unol â dewisiadau ac anghenion yr unigolyn mewn perthynas â’r dechnoleg
5. cefnogi unigolion i nodi a chael gafael ar yr wybodaeth, yr adnoddau neu’r cymorth sydd eu hangen arnynt i ddewis a defnyddio cymhorthion technolegol, dyfeisiau neu adnoddau digidol
6. annog a chefnogi annibyniaeth unigolion i nodi a dewis cymhorthion technolegol, dyfeisiau neu adnoddau digidol
7. adolygu neu gwblhau asesiadau risg ar gyfer cymhorthion technolegol, dyfeisiau neu adnoddau digidol
8. cymryd cyfrifoldeb dros y gwaith o gefnogi unigolion ac eraill i nodi, gosod a chael mynediad at amgylcheddau sy’n barod ar gyfer cymhorthion technolegol, dyfeisiau neu adnoddau digidol
9. cefnogi unigolion ac eraill i gael gafael ar gymhorthion technolegol, dyfeisiau neu adnoddau digidol, a'u defnyddio
10. cefnogi unigolion i ddefnyddio eu hunaniaeth ddigidol eu hunain
11. gweithio mewn partneriaeth ag eraill i ddefnyddio cymhorthion technolegol, dyfeisiau neu adnoddau digidol
12. annog a chefnogi annibyniaeth unigolion i ddefnyddio cymhorthion technolegol, dyfeisiau neu adnoddau digidol
13. annog a chefnogi unigolion pan fyddant yn defnyddio cymhorthion technolegol, dyfeisiau neu adnoddau digidol
14. cefnogi unigolion ac eraill i storio cymhorthion technolegol, dyfeisiau neu adnoddau digidol
15. cefnogi unigolion ac eraill i adael amgylcheddau’n lân ac yn daclus ar ôl eu

defnyddio
16. cefnogi unigolion ac eraill i roi adborth ar sut mae technoleg ddigidol yn cwrdd â dewisiadau ac anghenion yr unigolyn
17. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i nodi a gwneud newidiadau i gefnogi annibyniaeth unigolion â thechnoleg ddigidol
18. cwblhau’r cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer cymhorthion technolegol, dyfeisiau neu adnoddau digidol
19. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i hybu’r defnydd o dechnoleg ddigidol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut mae cael gafael ar wybodaeth am ddewisiadau ac anghenion unigolion mewn perthynas â thechnoleg ddigidol, a sut mae adolygu'r wybodaeth honno
2. sut mae cael gafael ar wybodaeth am gymhorthion technolegol, dyfeisiau neu adnoddau digidol, gan gynnwys arferion cynaliadwy, a sut mae adolygu'r wybodaeth honno
3. rôl technoleg ddigidol a sut mae adnabod cyfleoedd ar gyfer arloesedd digidol yn y gweithle
4. y risgiau posibl i unigolion ac eraill wrth ddefnyddio cymhorthion technolegol, dyfeisiau neu adnoddau digidol
5. sut mae adolygu neu gwblhau asesiadau risg ar gyfer cymhorthion technolegol, dyfeisiau neu adnoddau digidol
6. yr arferion gorau i gefnogi unigolion i ddatblygu eu hunaniaeth ddigidol
7. y mathau o wybodaeth, adnoddau a chymorth a allai helpu unigolion i ddewis a defnyddio cymhorthion technolegol, dyfeisiau neu adnoddau digidol
8. sut mae cefnogi niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol drwy ddefnyddio technoleg ddigidol
9. dylanwad diwylliant a chefndir ar ddewis technoleg ddigidol a'i defnyddio
10. y gwahanol fathau o gymhorthion technolegol, dyfeisiau neu adnoddau digidol a'r effaith gadarnhaol ar unigolion
11. sut mae defnyddio amrywiaeth o gymhorthion technolegol, dyfeisiau neu adnoddau digidol
12. y mathau o amgylcheddau sydd fwyaf addas ar gyfer defnyddio cymhorthion technolegol, dyfeisiau neu adnoddau digidol
13. yr adnoddau sydd eu hangen i osod cymhorthion technolegol, dyfeisiau neu adnoddau digidol
14. y dulliau i ddod o hyd i ddiffygion a chael diagnosis gyda chymhorthion technolegol, dyfeisiau neu adnoddau digidol
15. y gwahanol sgiliau y gall eraill eu cynnig wrth ddefnyddio technoleg ddigidol a sut i ddefnyddio'r sgiliau hyn
16. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i gefnogi unigolion i ddefnyddio technoleg ddigidol
17. sut mae monitro ymgysylltiad unigolion â chymhorthion technolegol, dyfeisiau neu adnoddau digidol

18. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gefnogi unigolion i ddewis technoleg ddigidol a’i defnyddio
19. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol wrth ddefnyddio technoleg ddigidol
20. sut mae gweithio ar y cyd ag unigolion ac eraill i adolygu a rhoi adborth ar y cymhorthion technolegol, dyfeisiau neu adnoddau digidol
21. sut y gall newidiadau i ddewisiadau, amodau ac amgylchiadau effeithio ar yr ymgysylltiad a’r cymorth sydd ei angen ar unigolion i ddefnyddio cymhorthion technolegol, dyfeisiau neu adnoddau digidol
22. y cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen i hybu’r defnydd o dechnoleg ddigidol
23. damcaniaethau sy’n berthnasol i hybu’r defnydd o dechnoleg ddigidol
24. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer hybu’r defnydd o dechnoleg ddigidol
25. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth hybu’r defnydd o dechnoleg ddigidol
26. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth hybu’r defnydd o dechnoleg ddigidol, a sut i fynd i'r afael â hyn
27. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth arwain ar ddefnyddio technoleg ddigidol

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Hybu'r defnydd o dechnoleg ddigidol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD318 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | technoleg digidol, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |